LGBC6M/2001

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AM 10.30 am DDYDD GWENER 15fed MEHEFIN 2001 YN NHY CARADOG, 1-6 ST.ANDREWS PLACE, CAERDYDD CF10 3BE

Yn bresennol:

Comisiwn	**Ysgrifenyddiaeth**
Yr Athro E Sunderland (Cadeirydd)	Mr E Lewis (Ysgrifennydd)
Mr E F L FitzHugh (Dirprwy Gadeirydd)	Mr S Halsall
Mrs S Smith (Aelod)	Mr D Carr
	Broomfield & Alexander
	Judy Hale

1. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 9fed Mai 2001.

1.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf.

2. Materion yn codi.

2.1 Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd y cynhelir cyfarfod y Comisiwn ag Edwina Hart AC ar 5ed Medi 2001 am 10:00 am.

2.2 Nododd Mr Halsall ei fod yn aros o hyd am ragor o fanylion yn ymwneud â chael rhodd i'w gyflwyno i Weinidog dros Lywodraeth Leol De Cymru Newydd yn ystod ei ymweliad â'r Comisiwn.

3. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn Llangollen (diweddariad llafar).

3.1 Nododd Mr Halsall bod perchennog y tir y mae ffin Llangollen yn rhedeg drwyddo bellach wedi rhoi caniatâd i'r Comisiwn gael mynediad i'r tir. Gwneir trefniadau yn fuan ar gyfer ymweliad safle i'r ardal gyda swyddogion yr Arolwg Ordnans.

3.2 Derbyniwyd ymateb Cyngor Sir Dinbych i'r adroddiad IPF ac fe'i hanfonwyd at Rita Hale i gael ei sylwadau arno. Gobeithiwyd y gallai ddarparu ei hymateb i'r Comisiwn erbyn diwedd mis Mehefin.

3.3 Sefydlwyd mai Cyngor Sir Dinbych oedd yn berchen ar Bafiliwn yr Eisteddfod yn Llangollen ac mai hwy oedd yn gyfrifol am ei gynnal a'i gadw. Fodd bynnag, dim ond rhan o'r Eisteddfod yr oeddent yn ei hariannu a gwnaed cyfraniadau hefyd gan awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus.

3.4 Nododd yr Ysgrifennydd bod Prif Weithredwr Swyddfa Ariannu Ewropeaidd Cymru wedi ei hysbysu ei fod yn mynd i'r afael â'i gais am wybodaeth ar statws Amcan 1 Llangollen pe câi ei drosglwyddo i Wrecsam. Y Cynulliad Cenedlaethol sydd â'r awdurdod dros bennu statws Amcan 1.

4. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn ardal Cymuned Clunderwen – cynrychioliadau a dderbyniwyd mewn ymateb i gynigion drafft.

4.1 Nododd y Comisiwn statws Mrs Smith fel Cadeirydd Pwyllgor Safonau Sir Benfro. Ni theimlai'r Comisiwn bod y penodiad hwn yn creu gwrthdaro o ran buddiannau mewn perthynas ag arolwg y Comisiwn o'r ffin rhwng Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

4.2 Ystyriodd y Comisiwn y cynrychioliadau a dderbyniwyd mewn ymateb i adroddiad y Cynigion Drafft. Yr oedd y rhan fwyaf o'r cynrychioliadau a dderbyniwyd o blaid cynnig y Comisiwn i drosglwyddo Clunderwen o Sir Gaerfyrddin i Sir Benfro. Yr eithriad oedd Cyngor Sir Caerfyrddin a oedd yn gwrthwynebu'r Cynigion Drafft ar y sail bod y ffin a gynigiwyd ganddynt yn eu cynrychioliad cychwynnol wedi'i diffinio'n gliriach na ffin arfaethedig y Comisiwn.

4.3 Cyflwynwyd nifer o awgrymiadau ar gyfer adlinio'r ffin bresennol. Nodwyd bod y cynnig a gyflwynwyd gan Gyngor Cymuned Cilymaenllwyd yn debyg iawn i'r un a gyflwynwyd gan Gyngor Cymuned Gorllewin Llandysilio yng ngham cychwynnol yr arolwg. Gwrthododd y Comisiwn y cynnig hwn oherwydd teimlwyd ei fod yn ymestyn cwmpas yr arolwg ac nad oedd unrhyw dystiolaeth y byddai o fudd o ran llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

4.4 Ystyriwyd y cynigion ar gyfer adlinio'r ffin a gyflwynwyd gan Blaid Ryddfrydol Cymru. Dywedodd Mr Halsall nad oedd awgrym y Blaid i alinio'r ffin i'r dwyrain o bentref Efailwen yn dilyn marciau a ddiffiniwyd yn glir ar y ddaear a'i fod felly wedi ceisio ei ddiwygio i ddilyn ffiniau caeau gerllaw fel y dangoswyd ar y map a ddarparwyd. Hefyd ystyriwyd awgrym pellach y Blaid yn ymwneud ag anomaledd ymddangosiadol y ffin rhwng Cymunedau Henllanfallteg a Chlunderwen.

4.5 Ystyriodd y Cadeirydd bod y cynigion gan Gyngor Cymuned Cilymaenllwyd a Phlaid Ryddfrydol Cymru y tu allan i gwmpas yr arolwg presennol. Ystyriodd efallai y byddai'n bosibl mynd i'r afael â'r broblem bod y ffin bresennol yn rhannu pentref Efailwen drwy sefydlu adliniad o'r ffin i'r gorllewin o'r pentref gan ei adael yn gyfan gwbl o fewn Sir Gaerfyrddin.

4.6 Codwyd y mater a fyddai angen cyfnod ymgynghori pellach neu bleidlais wedi'i chynnal gan y Comisiwn yng Nghymuned Clunderwen fel yr awgrymwyd gan Gyngor Cymuned Clunderwen. Ni chredai'r Cadeirydd bod angen cyfnod ymgynghori pellach na phleidlais.

4.7 **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ysgrifennu at Gyngor Cymuned Cilymaenllwyd yn gofyn am awgrymiadau ar gyfer ffin amgen i'r dwyrain o'r pentref ac y byddai copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon i'r holl awdurdodau dan sylw. **Cytunwyd**, yn dilyn ymateb gan Gyngor Cymuned Cilymaenllwyd, y byddai'r Comisiwn yn cynnal

ymweliad safle i Efailwen er mwyn penderfynu ar ffin addas i'r gorllewin o'r pentref a fyddai'n gadael y pentref cyfan o fewn Sir Gaerfyrddin.

5. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Geredigion a Sir Benfro yn ardal Cymuned Llandudoch – cyfarfod â Chyngor Sir Ceredigion (diweddariad llafar).

5.1 Nododd y Comisiwn statws Mrs Smith fel Cadeirydd Pwyllgor Safonau Sir Benfro. Ni theimlai'r Comisiwn bod y penodiad hwn yn creu gwrthdaro o ran buddiannau mewn perthynas ag arolwg y Comisiwn o'r ffin rhwng Ceredigion a Sir Benfro.

5.2 Dosbarthodd yr Ysgrifennydd gopïau o lythyr a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ceredigion a'u hadroddiad ar effaith cynigion drafft y Comisiwn ar dreth gyngor a chyllideb y Sir. Nododd bod Mr Halsall ac yntau wedi mynychu cyfarfod â swyddogion Cyngor Sir Ceredigion yn ddiweddar i drafod eu honiad y byddai adliniad arfaethedig y Comisiwn o'r ffin yn arwain at gynnydd o £7.18 mewn tâl cymunedol fesul person yn eu Sir.

5.3 Teimlwyd y byddai angen cyngor proffesiynol ar y Comisiwn ar fanylion adroddiad Cyngor Sir Ceredigion. Hefyd ystyriwyd y dylai Cyngor Sir Penfro a phartïon eraill â diddordeb gael copi o'r adroddiad. **Cytunwyd** y dylai'r Comisiwn anfon copi o adroddiad Cyngor Sir Ceredigion at Gyngor Sir Penfro a phartïon eraill â diddordeb yn gofyn am eu barn ac wedi hynny y dylent ystyried cael cyngor gan ymgynghorwyr proffesiynol. Byddai angen gwneud hyn erbyn cyfarfod nesaf y Comisiwn.

6. Arolwg o'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Casnewydd a Bwrdeistref Sirol Tor-faen – Adroddiad y Cynigion Drafft.

6.1 Nododd Mr Halsall nad oedd Cyngor Cymuned Ponthir wedi ymateb i gais y Comisiwn i gael cynrychioliad erbyn y dyddiad cau o 1 Mehefin 2001 a'i bod yn annhebygol y byddent yn cyflwyno un bellach. Cymeradwywyd adroddiad y Cynigion Drafft yn amodol ar wneud rhai mân newidiadau. **Cytunwyd** y byddai adroddiad y Cynigion Drafft yn cael ei gyfieithu a'i gyhoeddi.

7. Amserlen yr arolygon.

7.1 Ystyriodd y Comisiwn amserlen ddiwygiedig yr arolygon. Esboniodd yr Ysgrifennydd bod angen gohirio rhai arolygon yn sgîl ceisiadau gan gyrff amrywiol i gael estyn dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno cynrychioliadau i'w galluogi i gyflwyno rhagor o gynrychioliadau.

7.2 **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ysgrifennu at Mrs Edwina Hart AC, y Gweinidog dros Gyllid a Chymunedau, i'w hysbysu bod gohirio arolwg Llangollen yn golygu na fyddai bellach yn bosibl cwrdd â'r dyddiad cau yn Hydref 2001 i gyhoeddi'r Cynigion Terfynol.

7.3 Nododd yr Ysgrifennydd ei fod wedi cynnal cyfarfod â Bob Farrance o'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn ddiweddar i drafod trefniadau ar gyfer yr arolwg o'r etholaethau seneddol sydd yn yr arfaeth. Nid oedd y Swyddfa Gartref bellach yn gyfrifol am

gyfraith etholiadol a throsglwyddwyd y ddyletswydd hon i'r Adran Trafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau (DTLR). Yr oedd y Cynulliad Cenedlaethol yn awyddus i wneud cynnydd gyda'r broses ac yr oedd am i'r Comisiwn gymeradwyo'r Memorandwm. Yr oedd y Memorandwm yn cael ei lunio ar y pryd a dylai fod ar gael erbyn cyfarfod nesaf y Comisiwn.

7.4 Dywedodd Mr Halsall bod yn rhaid i'r etholaethau seneddol ddisgyn o fewn y ffiniau sirol a gadwyd yng Nghymru. Fodd bynnag nododd bod rhai anomaleddau yn y ffiniau hyn y byddai angen ymdrin â hwy cyn i'r arolwg hwnnw o ffiniau seneddol gychwyn. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ysgrifennu at y Cynulliad Cenedlaethol yn gofyn am ganiatâd i gynnal arolwg o'r ffiniau sirol a gadwyd.

7.5 Nododd Mr Halsall nad oedd adroddiad Cynigion Terfynol y Comisiwn ar gyfer yr arolwg o'r ffin rhwng Caerffili a Blaenau Gwent wedi ystyried effaith y newid arfaethedig i'r ffin ar y ffin sirol a gadwyd rhwng Gwent a Morgannwg Ganol. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ysgrifennu at y Cynulliad Cenedlaethol i'w hysbysu o'r newid dilynol hwn.

8. Cod Ymarfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth – 2il Argraffiad.

8.1 **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn mabwysiadu Cod Ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol Ganiatâu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth.

9. Cyhoeddi Cofnodion Cyfarfodydd y Comisiwn.

9.1 **Cytunwyd** y mabwysiedir Rhan B cofnodion y Comisiwn pryd bynnag y byddai'n angenrheidiol i gwmpasu materion o natur bersonol yn ymwneud ag Aelodau'r Comisiwn a Staff yr Ysgrifenyddiaeth a hefyd unrhyw faterion o natur sensitif yn fasnachol.

10. Adroddiad ariannol diwedd y flwyddyn 2000/01.

10.1 Nododd Mr Carr y cafwyd tanwariant cyffredinol o £30,000 ar gyfer 2000/01 gyda thanwariant ym mhob un o is-benawdau'r gyllideb oni bai am T&S Aelodau a ddangosodd gorwariant o £1,590. Gwelwyd gorwariant yn yr is-bennawd hwn oherwydd bod y dreth flynyddol a chyfraniadau YG ar T&S Aelodau yn uwch na'r disgwyl.

10.2 Y tanwariant mwyaf oedd £23,500 yn yr is-bennawd Costau Refeniw Eraill. Yr oedd hwn yn rhannol oherwydd y treuliau annisgwyl o tua £1,000 ym mhob un o'r 21 o gategorïau'r gyllideb ac yn rhannol oherwydd bod rhywfaint o waith y Comisiwn wedi'i ohirio tan ar ôl diwedd blwyddyn ariannol 2000/01.

11. Trosglwyddiadau ariannol cyllideb 2001/02.

11.1 Nododd Mr Halsall y nodwyd gorwariant amcangyfrifedig yng nghategorïau Costau Adeiladau a Swyddogion ar Secondiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru y gyllideb. Esboniodd y byddai'r gorwariant diweddarach yn digwydd o ganlyniad i'w drosglwyddiad ef o Dy'r Cwmnïau i'r Cynulliad Cenedlaethol. Byddai'r trosglwyddiad hwn hefyd yn golygu y byddai categori Swyddogion ar Secondiad nad ydynt o'r Cynulliad Cenedlaethol y gyllideb yn cael ei orariannu ac felly y dylid defnyddio'r arian hwn sy'n weddill i gwmpasu'r trosglwyddiadau angenrheidiol i gwrdd â gorwariant amcangyfrifedig. Byddai angen i'r Comisiwn gael caniatâd y Cynulliad Cenedlaethol fel y nodir yn y Memorandwm Ariannol er mwyn gwneud y trosglwyddiadau angenrheidiol rhwng y categorïau hyn o'r gyllideb.

11.2 **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ysgrifennu at y Cynulliad Cenedlaethol yn gofyn am ganiatâd i drosglwyddo £5,000 o gategori Swyddogion ar Secondiad nad ydynt o'r Cynulliad Cenedlaethol i'r categori Adeiladau a £26,750 o'r categori Swyddogion ar Secondiad nad ydynt o'r Cynulliad Cenedlaethol i gategori Swyddogion ar Secondiad y Cynulliad Cenedlaethol.

12. Cynllun Iaith Gymraeg – Adroddiad Blynyddol drafft 2000/01.

12.1 **Cymeradwyodd** y Comisiwn yr Adroddiad Blynyddol drafft ar y Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer 2000/01.

13. Cyfrifon Blynyddol drafft LGBCW 2000/01 – cyflwyniad gan Judy Hale o Broomfield & Alexander

13.1 Croesawodd y Cadeirydd Judy Hale i'r cyfarfod. Dechreuodd Ms Hale drwy ddweud y cyflwynwyd ei chyfrifon drafft i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a fyddai'n eu harchwilio yn fuan. Cafwyd diffyg cyffredinol o £2,636 ar ddiwedd 2000/01. Fodd bynnag yr oedd rhan o'r diffyg hwn o ganlyniad i gamgymeriad gan y Cynulliad Cenedlaethol a adenillodd log o £900 a enillwyd ar gyfrif banc y Comisiwn ddwywaith. Bu'n rhaid i'r Comisiwn ddileu'r golled hon o Grant-mewn-cymorth.

13.2 Gwelwyd gostyngiad yn y gwariant ar gyfer 2000/01 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn ôl y disgwyl oherwydd y gostyngiadau yn llwyth gwaith a lefel staff y Comisiwn. Hefyd ni ychwanegwyd at yr asedau sefydlog.

13.3 Yn yr adran Costau Gweithredu Eraill cafwyd cynnydd mawr yn y categori Arall ar gyfer 2000/01 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yr oedd hyn oherwydd bod y gwariant ar yr ymgynghoriaeth IPF ar gyfer arolwg Llangollen wedi'i gynnwys yn y categori hwn gan nad oedd unrhyw gategori arall yn addas. Teimlai'r Dirprwy Gadeirydd y dylid nodi'r gwariant hwn yn y cyfrifon. **Cytunwyd** y dylid nodi gwariant ar yr adroddiad IPF o dan yr is-bennawd 'Ffioedd Ymgynghoriaeth' yn y cyfrifon.

13.4 Diolchodd y Cadeirydd i Ms Hale am ei chyflwyniad.

14. Strategaeth Technoleg Gwybodaeth – Adroddiad ar y Newyddion Diweddaraf

14.1 Nododd yr Ysgrifennydd ei fod ef a Mr Halsall wedi mynychu cyfarfod â BIS a Siemens yn ddiweddar i drafod cysylltu'r Comisiwn â system ISIS y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r trefniadau presennol yn anfoddhaol o safbwynt 'rheoli risg' a hysbyswyd yr Isadran nawdd o hyn. Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno ar unrhyw gynnydd pellach maes o law.

15. Unrhyw Fater Arall.

15.1 Gwnaeth y Dirprwy Gadeirydd gais i newid amser cyfarfod y Comisiwn ym mis Gorffennaf i 10:00am. **Cytunwyd ar hyn.**

15.2 Trefnwyd y dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd y Comisiwn yn y dyfodol ar gyfer:

23ain Awst 2001 am 10:00am
28ain Medi 2001 am
30ain Hydref 2001 am 10:30am
26ain Tachwedd 2001 am 10:30am
20fed Rhagfyr 2001 am 10:30am